# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol yn darparu asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau drwy gydol 2024/25, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach fyth, lle mae angen gwelliannau pellach.

Mae'r hunanasesiad hwn wedi'i ddatblygu ac mae'n cynnwys y wybodaeth sydd ar gael ar adeg benodol. Mae dull y Cyngor o hunanasesu yn broses adolygu barhaus a llyfn, a bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd drwy gydol 2024/25, mae hefyd yn gosod y llwyfan ar gyfer newid sefydliadol sylweddol sydd ei angen, hyd at 2027 a thu hwnt.

Mae'r hunanasesiad wedi'i ysgrifennu i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgaredd sydd wedi digwydd**
- **Sut ydyn ni'n gwybod? Darparu tystiolaeth ansoddol a meintiol; a**
- **Beth a sut allwn ni ei wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf**

Fel pob corff cyhoeddus ar draws Cymru, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â rhai dyletswyddau statudol. Mae'r Adroddiad Hunanasesu a Llesiant hwn yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau cyhoeddi statudol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r ddwy Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol:

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol i adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015); a
- Cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu blynyddol (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021), sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad.

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

Dyma ein pedwerydd adroddiad, o dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac wrth wraidd y drefn berfformiad newydd hon, mae'r gofyniad i bob cyngor adolygu eu trefniadau perfformiad yn gyson. Mae angen i gynghorau wneud hyn drwy hunanasesiad cadarn a pharhaus o'u canfyddiadau, yr adroddir arnynt drwy'r adroddiad blynyddol hwn.




### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) yn rhoi saith nod llesiant blaenoriaethol mewn cyfraith y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Mae'n manylu ar y ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio a chydweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.



Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydym wedi cysylltu ein hamcanion blaenoriaethol allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad iddi.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi cysylltu ein meysydd amcanion llesiant blaenoriaeth allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad tuag ati.

